Wrth i ddiwedd y flwyddyn academaidd hon ddirwyn i ben, dyma air o ddiolch i holl deulu Bryn y Môr am eich cefnogaeth barhaus dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur gyda nifer o uchafbwyntiau. Yn eu mysg oedd llwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Nid yn unig y gallwn ddathlu llwyddiant cystadlaethau grŵp ond fe wnaeth unigolion dawnus ein hysgol serennu hefyd.  Mae'r disgyblion wedi mwynhau gwledd o weithgareddau yn ystod y flwyddyn; o ymweliadau gan awduron i wibdeithiau addysgiadol a theithiau preswyl cyffrous. Cafwyd ymateb gwych hefyd i'r gweithgareddau sydd wedi dathlu gwaith ein plant a chodi arian, yn enwedig yr arddangosfa gelf. Roedd y plant wedi gweithio mor ddiwyd ar eu campweithiau a braf oedd gweld eu balchder wrth i'w gwaith gael eu harddangos mewn ffordd mor effeithiol.

Mae gan Ysgol Bryn y Môr rieni sydd yn hynod weithgar dros yr ysgol a'r plant. Rydym yn ffodus dros ben eich bod yn rhoi o'ch amser, yn barod i rannu eich arbenigedd ac yn cefnogi gweithgareddau'r ysgol. Mae cyfraniad gwerthfawr y Gymdeithas Rieni ac Athrawon at fywyd yr ysgol yn helaeth ac efallai nad ydym oll yn ymwybodol o'r cyfraniadau hyn. Diolch iddynt am yr holl waith trefnu sydd ynghlwm wrth ffeiriau'r ysgol, sydd bob amser yn codi symiau sylweddol o arian. Y CRA hefyd sy'n talu am y bysiau i gludo plant blwyddyn 5 i Dan y Bwlch, holl weithgareddau gadael blwyddyn 6 a'u rhoddion, a'r daith sinema flynyddol sy'n anrheg Nadolig hyfryd i bob plentyn yn yr ysgol.

Braf gweld hefyd bod yr ysgol wedi elwa o welliant o fewn yr adeilad dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn sicr mae'r plant wrth eu boddau gyda'r loceri newydd, sef y prosiect mawr am eleni a ariannwyd gan y CRA, a hyderaf y bydd y newidiadau sydd i ddod yn plesio'r disgyblion hefyd.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r llywodraethwyr sy'n gwneud gwaith diflino a chydwybodol ar ran yr ysgol. Credaf ein bod yn ffodus dros ben gyda holl staff ein hysgol a diolch iddynt oll am estyn croeso a rhoi cefnogaeth gref i'n Pennaeth wrth iddi lwyddo i arwain yr ysgol mewn ffordd mor effeithiol.

Mae pob aelod o deulu Bryn y Môr yn gweithio er lles y plant, a'u hapusrwydd, eu diogelwch a'u lles. Y gobaith yw bod ein plant yn ystyried eu cyfnod yn YGG Bryn y Môr fel un hapus a llewyrchus sy'n rhoi'r cyfleoedd gorau iddynt wrth ddechrau eu bywyd addysgiadol.  Ac ar y nodyn hwnnw - pob hwyl i ddisgyblion blwyddyn 6! Joiwch weddill y dathlu!

Gan ddymuno haf hyfryd i chi,

Saran Thomas
Cadeirydd y Llywodraethwyr

As the academic year draws to a close, I'd like to thank every member of the Bryn y Môr family for your continued support over the past year.

It has been a busy year with many highlights including the school's success in the National Urdd Eisteddfod. Not only can we be proud of the children's efforts in the group competitions but we also have individual pupils whose talents shone. The children have enjoyed a wealth of exciting activities during the year; from author visits to educational trips and exciting residentials.  The response to activities and fundraisers which have celebrated the children's work has also been fantastic, especially the art exhibition.  The children worked so hard on their masterpieces and it was lovely to see how proud they were to see their work displayed in such and effective way.

At Ysgol Bryn y Môr we have parents who are so willing to work for the sake of the school and the children.  We are very lucky that you are willing to give your time, share your expertise and support the school's activities. The valuable contribution the Parent Teacher Association makes to the school is vast and we may not all be aware of these contributions.  We are very grateful for all the hard work involved with organising the school fairs, which always raises significant funds for the school. The PTA also pays for the buses which take year 5 to Tan y Bwlch, all year 6 leavers' activities and leaving gifts, and the annual cinema trip which is a lovely Christmas gift to all the children.

It's been great to see the school benefit from improvements within the building during the year.  The children are thrilled with the new lockers, which was the large PTA funded project for this year, and I'm sure future improvements will please the pupils too.

I would also like to thank the governing body who work tirelessly and conscientiously on behalf of the school.  I think we are extremely lucky with all members of school staff and I'm very grateful to them for the welcome and the strong support they've given our Head this year while she's succeeded in leading the school so effectively.

All members of the Bryn y Môr family work for the benefit of the children, their happiness, safety and wellbeing. It is sincerely hoped that our children consider their time in YGG Bryn y Môr as happy and prosperous, giving them the best opportunities as they start their educational life. And on that note – best of luck to all year 6 pupils! Enjoy the celebrations!

Wishing you a lovely summer,

Saran Thomas
Chair of Governors